The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais am Ganiatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd**

**Cyf yr Achos:EN010007**

**Nodyn y Panel ar yr Archwiliad Safle Heb Gwmni**

## Cefndir

Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio (‘y Panel’) archwiliad safle heb gwmni i gefnogi ei archwiliad o gais am ganiatâd datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd a gynigir (‘y cais’) ar 22 Hydref 2018.

Er budd effeithlonrwydd, cynhaliodd y Panel ei archwiliad safle heb gwmni y diwrnod cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol, gan gynnal archwiliadau o dir hygyrch i’r cyhoedd. Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau ar dir preifat, nid oedd angen caniatâd ymlaen llaw i fynd ar unrhyw dir ac felly cynhaliwyd yr archwiliadau hyn heb gwmni.

Cynhaliwyd yr archwiliad safle er mwyn gweld safle’r cynllun a gynigir a’r datblygiad cysylltiedig, y ffyrdd presennol a’r ardal gyfagos. Hefyd, archwiliwyd mannau a allai ddod o fewn lleoliad y cynigion.

Cynhelir archwiliadau safle pellach heb gwmni yn ystod yr archwiliad.

## Manylion yr Ymweliad â’r Safle

Cynhaliwyd yr ymweliad gan bob un o’r pum aelod o’r Panel: Frances Fernandes; Mike Hayes; Peter Braithwaite; Clive Sproule a Jo Dowling. Nid oedd unrhyw bersonau eraill yn bresennol.

Cynhaliwyd yr ymweliad mewn ceir ac ar droed. O ran cyflwr y tywydd, roedd yn ddiwrnod clir, heulog gydag awel ysgafn, a thymheredd o 13 – 10$^{o}$C. Roedd cyflwr y tywydd yn dda iawn drwy gydol yr ymweliad ar gyfer gwerthfawrogi golygfeydd o bellter.

Dechreuodd yr archwiliadau tua 10.10am a daethant i ben tua 6.00pm. Atodir rhestr o’r lleoliadau a ymwelwyd yn Atodiad A.

## Atodiad A: Rhestr o leoliadau a ymwelwyd ar yr Archwiliad Safle Heb Gwmni

Wrth nesáu at Bont Britannia, gan yrru ar hyd ffordd yr A55 (Gwibffordd Gogledd Cymru), nododd y Panel y gilfan ar yr ochr chwith, lle adroddwyd ar achos posibl o ormodiant yn ansawdd yr aer.

O Bont Britannia, gyrrodd y Panel ar hyd ffordd yr A55 (Gwibffordd Gogledd Cymru) i gyffordd 4 a Dalar Hir.

Bu’r Panel yn archwilio’r safle Parcio a Theithio yn Nalar Hir gan edrych o gyfeiriad Ffordd Caergybi; cerddwyd ar hyd y safle sy’n ffinio â’r ffordd ac archwiliwyd cyffordd yr allanfa a’r dirwedd ehangach.

Gyrrodd y Panel ar hyd ffordd yr A55 i Barc Cybi; ym Mharc Cybi, bu’r Panel yn archwilio golygfeydd o’r tomenni claddu i’r maen hir a Mynydd Tŵr.

O Barc Cybi, gyrrodd y Panel ar hyd ffordd yr A5153 i faes parcio Traeth Penrhos , gan gerdded ar hyd y Llwybr Arfordirol i Orsedd-y-Penrhyn a gweld y cyffiniau o’r man hwnnw.

O Draeth Penrhos, gyrrodd y Panel ar hyd ffyrdd yr A55 a’r A5025 gan gymryd y llwybr a gynigir ar gyfer traffig adeiladu, gan aros wrth Eglwys Sant Maethlu yng Ngharreglwyd a’r safle oddi ar safle’r orsaf bŵer a gynigir yn Llanfaethlu.

O Lanfaethlu, cymerodd y Panel ffordd yr A5025 i Dregele ac wedyn yr is-ffordd i faes parcio Bae Cemlyn, gan edrych ar dŷ Cafnan. O’r maes parcio, cerddodd y Panel ar hyd y Llwybr Arfordirol cyn belled â Phorth-y-Pistyll, gan nodi Tŷ a Gardd Cestyll; Porth-y-Pistyll a Bae Cemlyn.

Wedyn, gyrrodd y Panel i faes parcio Trwyn Wylfa gan ymweld â Wylfa/Trwyn Wylfa/y Llwybr Arfordirol a SoDdGA Tre’r Gof.

O’r maes parcio, dychwelodd y Panel ar hyd eu llwybr i Dregele a gyrru ar hyd yr is-ffordd i Lanfechell.

Yn Llanfechell, cerddodd y Panel at y Maen Hir gan arsylwi ar y dirwedd a’r cyffiniau.

Wedyn, gyrrodd y Panel ar hyd is-ffyrdd i Gemaes a Harbwr Cemaes. Oddi yno, gyrrodd y Panel ar hyd ffordd yr A5025 i Amlwch.

Gan ddilyn is-ffyrdd pellach, gyrrodd y Panel heibio’r safleoedd iawndal Ecolegol a gynigir yn Nhŷ Du a ger Talwrn.

O Dalwrn, teithiodd y Panel i faes sioe Môn i ymweld â’r lleoliad.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Application for Development Consent for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station**

**Case Ref:EN010007**

**Panel's Note of Unaccompanied Site Inspection**

## Background

The Examining Authority ('the Panel') undertook an unaccompanied site inspection to support its examination of an application for development consent for the proposed Wylfa Newydd Nuclear Power Station ('the application') on 22 October 2018.

In the interests of efficiency, the Panel carried out its unaccompanied site inspection the day before the Preliminary Meeting, undertaking inspections from publicly accessible land. No inspections were undertaken on private land, advance permission to enter land was not required and so these inspections could be undertaken on an unaccompanied basis.

The site inspection was undertaken in order to view the site of the proposed scheme and the associated development, existing roads and the surrounding area. Locations prospectively within the setting of these proposals were also inspected.

Further unaccompanied site inspections will take place during the examination.

## Particulars of the Site Visit

The visit was undertaken by all five Panel members: Frances Fernandes; Mike Hayes; Peter Braithwaite; Clive Sproule and Jo Dowling. There were no other persons in attendance.

The visit was undertaken by car and on foot. Weather conditions were clear, sunny day with light breeze, temperature 13 – 10$^{o}$C. Weather conditions were at all times very good to appreciate long term views.

Inspections commenced at approximately 10.10 am and finished at approximately 6.00 pm. A list of the locations visited is attached in Annex A.

## Annex A: List of locations visited on Unaccompanied Site Inspection

Approaching the Britannia Bridge, driving along the A55 (North Wales Expressway), the Panel noted the lay-by to the left hand side, which was reported to have a potential air quality exceedance.

From the Britannia Bridge the Panel drove along the A55 (North Wales Expressway) to junction 4 and Dalar Hir.

The Panel inspected the Park and Ride site at Dalar Hir viewed from Holyhead Road; walked the length of the site abutting the road and inspected the exit junction and wider landscape.

The Panel drove along the A55 to Parc Cybi; at Parc Cybi the Panel inspected views from the burial mounds to the standing stone and Holyhead Mountain.

From Parc Cybi the Panel drove along the A5153 to Penrhos Beach car park and walked along the Coastal Path to Gorsedd-y-Penrhyn and viewed environs from there.

From Penrhos Beach the Panel drove along the A55 and A5025 taking the proposed route for construction traffic, stopping at Sant Maethlu Church in Carreglwyd and the proposed off site power station site at Llanfaethlu.

From Llanfaethlu the Panel took the A5025 to Tregele and then the minor road to Cemlyn Bay car park, viewing Cafnan house. From the car park the Panel walked the Coastal Path as far as Porth-y-Pistyll, noting Cestyll House and Garden; Porth-y-Pistyll and Cemlyn Bay.

The Panel then drove to Wylfa Head car park and visited Wylfa/Wylfa Head/ Coastal Path and Tre’r Gof SSSI.

From the car park, the Panel retraced their route to Tregele and drove along the minor road to Llanfechell.

At Llanfechell the Panel walked to the Standing Stone and observed the landscape and environs.

The Panel then drove along minor roads to Cemaes and Cemaes Harbour. From there, the Panel drove along the A5025 to Amlwch.

Following further minor roads, the Panel drove past the proposed Ecological compensation sites at Tŷ Du and near Talwrn.

From Talwrn the Panel then made their way to the Anglesey showground to visit the venue.